Y Pwyllgor Archwilio
AC(3)-02-07 (p2): 18 Hydref 2007

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Portffolio o archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol

**11 Hydref 2007**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Fy mhortffolio o archwiliadau gwerth am arian | 3 |
| Atodiad 1: Archwiliadau gwerth am arian a gwblhawyd yn ddiweddar, sy'n mynd rhagddynt neu y bwriedir eu cychwyn erbyn diwedd mis Mawrth 2008 | 5 |
| Atodiad 2: Gwaith traws-sector nodedig parhaus neu a gynlluniwyd ar draws llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r GIG | 9 |
| Atodiad 3: Opsiynau ar gyfer archwiliadau gwerth am arian newydd, i ddechrau yn 2008/2009 ac ar ôl hynny | 11 |

## Fy mhortffolio o archwiliadau gwerth am arian

1. Mae'n ofynnol i mi o dan ddeddfwriaeth, ac i helpu'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei rwymedigaethau ei hun o dan Reol Sefydlog 13.1, i ystyried barn y Pwyllgor wrth ymarfer fy mhwerau i gynnal archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) yng ngyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

2. Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion adroddiadau gwerth am arian a gyhoeddwyd yn ddiweddar nad ydynt wedi'u hystyried gan y Pwyllgor hyd yma, ochr yn ochr â gwaith sy'n mynd rhagddo neu y bwriedir ei ddechrau yn yr ychydig fisoedd nesaf, yn seiliedig i raddau helaeth ar y portffolio o archwiliadau a gyflwynais i'r Pwyllgor blaenorol ym mis Chwefror 2008 (AC[2]-01-07: Archwiliadau gwerth am arian a gwaith arall i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio). Gyda'i gilydd, bydd yr archwiliadau hyn yn sail i lawer o waith craffu'r Pwyllgor dros y 18 mis nesaf.

3. Mae Atodiad 2 yn disgrifio tri darn arall o waith traws-sector nodedig sy'n mynd rhagddynt neu y bwriedir eu dechrau'n fuan, yn cwmpasu llywodraeth ganolog, y Gwnasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a sectorau llywodraeth leol, ac y gallant fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor, sef:
    - Creu'r Cysylltiadau;
    - Cyfnewidfa Arfer Da; a
    - Menter Twyll Genedlaethol.

4. Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi dewis ehangach o opsiynau ar gyfer archwiliadau gwerth am arian yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r rhestr a ystyriwyd gan y Pwyllgor blaenorol ym mis Hydref 2007 (AC[2]-09-06: Effaith gwaith gwerth am arian dros y flwyddyn ddiwethaf a chynigion am archwiliadau yn 2007/2008 ac ar ôl hynny). Mae fy mhwerau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn fy ngalluogi i archwilio gwariant a chyflawniad ar draws systemau cyfan yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru a byddai llawer o'r opsiynau hyn ar gyfer archwiliadau newydd, megis y cynigion ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra neu sgiliau sylfaenol, yn gofyn am ddull traws-sector amlasiantaethol.

5. Wrth gynllunio a chyflawni fy archwiliadau gwerth am arian, bu bob amser yn bwysig bod yn hyblyg iawn er mwyn ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau sy'n newid. Mae hyn yn golygu y gallaf, am resymau gwahanol, ddewis gohirio rhai archwiliadau ar adeg benodol neu eu cyflwyno'n gynt. Dros y ddeufis neu'r tri mis nesaf, byddaf yn ystyried yn fanylach yr allbynnau o'm hasesiad risg a'm hymgynghoriad parhaus ar draws llywodraeth ganolog, y GIG a llywodraeth leol ochr yn ochr â barn y Pwyllgor i bennu pa archwiliadau newydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt, yn fy marn i.

6. Fel modd o engraifft, yn ddiweddar rwyf wedi penderfynu peidio â datblygu fy archwiliad arfaethedig o Gymorth Rhanbarthol Dewisol, oherwydd bod y cynllun yn dod i ben a chaiff ei ymgorffori yng ‘Nghronfa Fuddsoddi Sengl' llywodraeth

Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad). Mae hefyd yn rhy gynnar i archwilio'r broses o reoli'r gronfa newydd hon. Ar y llaw arall, mae fy archwiliad o drefniadau ar gyfer darparu cyflenwadau ocsigen yn y cartref yn enghraifft dda o waith yr wyf wedi'i wneud ar fyr rybudd mewn ymateb i bryderon a godwyd drwy ohebiaeth.

**7.** Dros y misoedd nesaf, bydd angen i mi hefyd ystyried unrhyw newidiadau polisi neu wariant mawr sy'n codi o ganlyniad i gytundeb y glymblaid newydd, Cymru'n Un. Yn ogystal, byddaf yn ystyried i ba raddau y gallai unrhyw gynigion newydd gyfrannu at raglen waith gytbwys gan fynd i'r afael â phum thema graidd fy strategaeth ar gyfer gwaith Swyddfa Archwilio Cymru hyd at 2009, sef:

- archwilio sut y gellir gwella partneriaethau a chydweithio i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i'r cyhoedd;
- gwella ansawdd gwaith rheoli ariannol a rheoli perfformiad yn gyffredinol ac yn y GIG yn benodol;
- hwyluso meddylfryd ac ymatebion system gyfan;
- cryfhau llywodraethu corfforaethol a mynd i'r afael â thwyll;
- nodi, gwerthuso a helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyflwyno arfer da.

**8.** Yn gyson â'm strategaeth, wrth gynnal yr holl archwiliadau y byddaf yn eu dewis yn y pen draw byddaf yn archwilio'n llawn y cwmpas i wneud hynny mewn cydweithrediad neu ar y cyd â chyrff archwilio, arolygu neu reoleiddio eraill megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu'r Comisiwn Archwilio.

**9.** Gwahoddaf y Pwyllgor i roi syniad i mi o'r pynciau sydd o ddiddordeb arbennig i Aelodau o'r opsiynau a roddir yn Atodiad 3, neu i amlygu unrhyw feysydd eraill o ddiddordeb nas cwmpesir gan y rhestr hon ar hyn o bryd. Yna, ar ddechrau 2008, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr archwiliadau y bwriadaf eu cyflwyno i'm portffolio o archwiliadau gwerth am arian.

**Jeremy Colman**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

11 Hydref 2007

# Atodiad 1: Archwiliadau gwerth am arian a gwblhawyd yn ddiweddar, sy'n mynd rhagddynt neu y bwriedir eu cychwyn erbyn diwedd mis Mawrth 2008

| Teitl yr archwiliad | Statws[1] |
|---|---|
| **Cynyddu gweithgarwch corfforol**<br>Canfu'r adroddiad hwn, ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi Strategaeth 20 mlynedd Dringo'n Uwch Llywodraeth y Cynulliad, i fuddsoddiad sylweddol gael ei wneud ac y bwriedir buddsoddi'n sylweddol ar gyfer cynyddu gweithgarwch corfforol, a gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran dod â'r partïon perthnasol at ei gilydd i fynd i'r afael â mater cymhleth a thrawsbynciol. Fodd bynnag, mae angen rhagor o gydweithredu ar ran pawb sy'n cymryd rhan ynghyd â gwerthusiad mwy effeithiol a fframwaith rheoli perfformiad i ategu'r broses o gyflawni'r strategaeth. | Cyhoeddwyd – Mehefin 2007 |
| **Adolygiad o'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) newydd yng Nghymru**<br>Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn o ran a yw'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2003, yn gweithio yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod y fframwaith ar waith ond, i ddangos gwerth am arian mae angen newidiadau pellach i sicrhau manteision i gleifion yn ogystal â meddygon teulu yn sgîl y cynnydd mewn gwariant. | Cyhoeddwyd – Awst 2007 |
| **Cyflawni'r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref**<br>Er bod tai Cymru yn mynd yn fwy effeithlon o ran ynni, canfu'r adroddiad hwn y gall 14 allan o'r 22 o gynghorau fethu â chyflawni eu targedau perfformiad Cytundeb Polisi ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn y cartref ac ni fyddai'r un ohonynt yn dod yn agos at y nod gwreiddiol o sicrhau lleihad o 30 y cant yn y defnydd o ynni erbyn 1 Ebrill 2007 a bennwyd ar ôl cyflwyno Deddf Arbed Ynni yn y Cartref yn 1995. | Cyhoeddwyd – Medi 2007 |
| **Cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a yw Tir Gofal mewn sefyllfa dda i gyflawni ei amcanion, yn awr ac yn y dyfodol. | I'w gyhoeddi yn fuan |

[1] **Nodyn**

*O dan statws, mae 'cwmpasu' yn cyfeirio at y gwaith rhagarweiniol a wnaed i bennu'r cwmpas a'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy yn yr archwiliad llawn. Mae 'Clirio' yn cyfeirio at gam ein gwaith pan fyddaf, cyn cyhoeddi adroddiadau, yn ceisio barn cyrff a archwiliwyd a thrydydd partïon ar gywirdeb ffeithiol fy adroddiadau drafft a thegwch a chydbwysedd eu cyflwyniad. Rhestrir rhai archwiliadau fel rhai nad ydynt wedi'u dechrau hyd yma a bwriedir dechrau arnynt cyn diwedd 2007/2008.*

| | |
|---|---|
| **Mynd i'r afael ag Achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn y system gyfan**<br>Gan gyflwyno trosolwg o'n canfyddiadau yn seiliedig ar waith manylach yng nghymunedau iechyd a gofal cymdeithasol Caerdydd a'r Fro, Gwent a Sir Gaerfyrddin, bydd yr adroddiad hwn yn archwilio a yw ymddiriedolaethau, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn y cymunedau hyn yn cymryd camau gweithredu effeithiol ar draws y system gyfan o iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a'r hyn sy'n eu hachosi. | I'w gyhoeddi yn fuan |
| **Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a yw ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn gwneud y pethau cywir, yn unol â strategaeth Llywodraeth y Cynulliad 2004 ar gyfer ysbytai, i sicrhau'r lefelau lleiaf posibl o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal. | I'w gyhoeddi yn fuan |
| **Trefniadau ar gyfer darparu cyflenwadau ocsigen yn y cartref**<br>Mae'r archwiliad hwn yn canolbwyntio ar ymdrin â chyflwyno'r contract newydd ar gyfer darparu cyflenwadau ocsigen yn y cartref o 1 Chwefror 2006; ac i ba raddau mae'r contract newydd yn debygol o sicrhau'r manteision disgwyliedig o ran gofal i gleifion. | Clirio |
| **RAF Sain Tathan a Phrosiect y Ddraig Goch**<br>Dyma'r gyd-astudiaeth gyntaf gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac mae'n archwilio a yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac awdurdodau yng Nghymru wedi rheoli'n briodol y risgiau a'r cyfleoedd o ran ariannu creu uwch-hangar atgyweirio jetiau a pharc busnes awyrofod masnachol yn RAF Sain Tathan. | Clirio |
| **Cyngor Celfyddydau Cymru: prosiectau cyfalaf**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a yw Cyngor y Celfyddydau yn rheoli'n effeithiol y risgiau sy'n ymwneud â chefnogi prif brosiectau'r celfyddydau drwy ei raglen grantiau cyfalaf a gweithgarwch cymorth cysylltiedig. | Clirio |
| **Caffael yr adeilad newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a wnaeth Llywodraeth y Cynulliad reoli'r broses o gaffael a chyflawni'r Senedd yn dda, ar ôl i'r prosiect ailddechrau yn 2002 (roedd cam cyntaf y prosiect wedi'i archwilio eisoes mewn dau adroddiad, a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd ym mis Tachwedd 2000 a mis Tachwedd 2002). | Clirio |
| **Rheoli clefydau cronig**<br>Gan ddefnyddio gwaith maes lleol a gynhaliwyd ar draws y GIG yng Nghymru, mae'r archwiliad hwn yn ystyried a yw'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol yn cefnogi rheoli cyflyrau cronig yn effeithiol. | Drafftio |
| **A yw'r trefniadau rheoli ariannol dirprwyedig yn GIG Cymru yn effeithiol?**<br>Mae'r archwiliad hwn yn dilyn fy adroddiad blaenorol, A yw'r GIG yn ymdopi o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael iddo, ac mae'n manteisio ar y cyfle a gyflwynwyd ar ôl i mi benderfynu cynnal yr archwiliad blynyddol o holl gyrff y GIG i roi lefel uwch o ran cyflwyno adroddiadau ar gyflwr ariannol y GIG. Fel rhan o'r archwiliad hwn, rydym wedi cynnal arolwg mawr o Ymddiriedolaethau a'r byrddau Iechyd lleol drwy ddefnyddio model rheoli ariannol CIPFA i asesu cryfderau a gwendidau'r rheolaeth ariannol ar bob safle. | Drafftio |

| | |
|---|---|
| **Canolfan Mileniwm Cymru**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a oedd y cyllidwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol â'r risgiau dan sylw o ran cyllido Canolfan Mileniwm Cymru. | Drafftio |
| **Uno a chydweithredu ym maes sefydliadau addysg uwch**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a wneir cynnydd da tuag at gyflawni amcanion polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch drwy ailgyflunio a chydweithio. | Gwaith maes |
| **Rheoli'r perygl o lifogydd**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a ddylai sector cyhoeddus Cymru weithredu ei gynigion arfaethedig i fynd i'r afael â'r risgiau newidiol sy'n gysylltiedig ag erydu arfordirol a llifogydd llanw. | Gwaith maes |
| **Datblygu cynaliadwy - penderfyniadau busnes**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a yw Llywodraeth y Cynulliad yn dysgu sut i ymgorffori datblygu cynaliadwy'n fwy effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau busnes. | Gwaith maes |
| **Y GIG: rheoli absenoldeb oherwydd salwch (gwaith dilynol)**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a oes cynnydd da wedi'i wneud o ran gwella'r broses o reoli absenoldeb oherwydd salwch gan ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, ers adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ym mis Ionawr 2004. | Gwaith maes |
| **Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a yw Comisiwn Coedwigaeth Cymru mewn sefyllfa dda i gyflawni ei amcanion strategol tra'n cynnal hyfywedd ariannol. | Gwaith maes |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed**<br>Mae'r archwiliad hwn, sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn ystyried a yw gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng Nghymru yn diwallu anghenion pobl ifanc. | Gwaith maes |
| **Buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion**<br>Mae'r archwiliad hwn yn ystyried a yw dulliau cyfredol o ymdrin ag ariannu a rheoli asedau yn cynorthwyo'r defnydd effeithiol o fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion. | Gwaith maes |
| **Trafnidiaeth integredig**<br>Mae union gwmpas yr archwiliad hwn yn cael ei bennu o hyd, a bydd angen iddo ystyried y bwriad i gyhoeddi'r Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru yn nes ymlaen yn 2007. | Cwmpasu |
| **Cymunedau yn Gyntaf**<br>Byddai'r archwiliad hwn yn canolbwyntio ar sut mae arian Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio a'i fonitro, ac asesu'r effeithiau a gyflawnwyd, gan dalu sylw arbennig i'r gwerthusiad interim o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2006) ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad iddo a gwaith archwilio mewnol parhaus. | Heb ddechrau hyd yma |
| **Hysbysu Gofal Iechyd – datblygu technoleg newydd i gofnodi a chadw gwybodaeth am gleifion a'u hiechyd**<br>Byddai'r archwiliad hwn yn edrych ar y broses gyffredinol o reoli'r rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd, yn enwedig y broses o reoli risgiau allweddol. Byddai hefyd yn archwilio sut mae buddiannau'r rhaglen yn cael eu gwireddu. | Heb ddechrau hyd yma |

| | |
|---|---|
| **Cynllunio at argyfwng - Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl**<br>Byddai'r archwiliad hwn yn canolbwyntio ar ystyried a oes gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yr adnoddau a'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau mawr. Yn arbennig, byddai'n archwilio a yw cynlluniau digwyddiadau mawr wedi'u diweddaru, yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf ac wedi'u profi. | Heb ddechrau hyd yma |
| **Addysg plant sy'n derbyn gofal**<br>Byddai'r archwiliad hwn yn asesu'r trefniadau cyfredol ar gyfer atebolrwydd ac arfer o ran y mater hwn a byddai'n cynnwys cynghorau mewn gwaith hunan-asesu a chynllunio ar gyfer gwella. | Heb ddechrau hyd yma |
| **Rheoli rhaglenni buddsoddi cyfalaf y GIG**<br>Byddai'r archwiliad hwn yn adolygu'r broses gyffredinol o reoli a gweithredu'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf. Byddai'n cynnwys asesiadau o allu cyrff y GIG i ddatblygu a chyflawni cynlluniau cyfalaf newydd. | Heb ddechrau hyd yma |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion (gwaith dilynol)**<br>Ym mis Hydref 2005 amlygodd fy adroddiad ar wasanaethau iechyd meddwl i oedolion yng Nghymru yr angen am gamau gweithredu sylweddol a chyson i wella gwasanaethau ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl. Bydd yr archwiliad hwn yn asesu cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad blaenorol. Adolygir y cyfle i wneud y gwaith ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. | Heb ddechrau hyd yma |

# Atodiad 2: Gwaith traws-sector nodedig parhaus neu a gynlluniwyd ar draws llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r GIG

| |
|---|
| **Creu'r Cysylltiadau**<br>(Cam Un)<br>Mae'r prosiect hwn yn cwmpasu’r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru gyda'r nod o ateb y cwestiwn: ‘A yw'r sector cyhoeddus yn gwneud cynnydd digonol o ran rhoi agenda Creu'r Cysylltiadau ar waith i ddarparu gwell gwasanaethau?’. Mae'r prosiect wedi asesu cynnydd mewn pedwar maes allweddol a nodwyd yn Creu'r Cysylltiadau, sef cydweithio fel gwasanaeth cyhoeddus Cymru; gwneud gwell defnydd o adnoddau; canolbwyntio ar y dinesydd; ac ymgysylltu â'r gweithlu. Bu'r canolbwynt ar nodi'r camau gweithredu allweddol sydd wedi'u gweithredu eisoes, rhwystrau i gynnydd, atebion posibl ac arferion da y gellid eu rhannu â chyrff cyhoeddus eraill.<br>(Cam Dau - Rheoli Asedau)<br>Bwriadaf adeiladu ar Gam Un fy ngwaith ar Creu'r Cysylltiadau drwy gynnal astudiaeth o'r defnydd o asedau ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru. Mae'r enillion effeithlonrwydd posibl yn sgîl adolygu cyfluniad asedau a'r defnydd o asedau yn sylweddol, ynghyd â'r buddiannau posibl yn sgîl cydweithio yn y maes hwn. Ceir cyfle unigryw i hyrwyddo gwell defnydd o asedau ar lefel sefydliadol a lefel gymunedol ehangach ac i nodi a rhannu arfer da. Cynigiaf wneud y gwaith hwn dros gyfnod o dair blynedd. I ddechrau byddwn yn archwilio a yw gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau, ar y cyd, bod eu dull o reoli asedau fflyd a cherbydau yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gefnogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau. Mewn blynyddoedd dilynol, cynigiaf archwilio agweddau ar reoli adeiladau, rheoli offer a pheiriannau a rheoli asedau TG. |
| **Cyfnewidfa Arfer Da**<br>Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r egwyddor o ddefnyddio arfer da i gefnogi gwelliant ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru, ac yn bwriadu parhau i nodi, gwerthuso a hwyluso'r gwaith o'i drosglwyddo o fewn sectorau, a rhyngddynt, fel rhan o'm gwaith prif ffrwd. Yn dilyn lansiad llwyddiannus y Gyfnewidfa Arfer Da ym mis Mai 2007, bwriadaf wella'r Gyfnewidfa, i ddechrau drwy ddatblygu'r deunyddiau rheoli absenoldeb oherwydd salwch i ganolbwyntio ar y mater ehangach o reoli presenoldeb. Yn ogystal, bwriadaf ddatblygu cynnwys pellach ar gyfer y Gyfnewidfa Arfer Da sy'n ategu gwaith Creu'r Cysylltiadau rwyf yn bwriadu ei gynnal ar reoli asedau. I gefnogi'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth byddaf hefyd yn parhau i ddatblygu'r Fforwm Dysgu a Rennir. Bydd hyn yn fodd i gyrff gwasanaethau cyhoeddus rannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol a sector. |

**Menter Twyll Genedlaethol**

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data a sefydlwyd gan y Comisiwn Archwilio yn Lloegr sy'n helpu i ganfod taliadau twyllodrus a gwallus o bwrs y wlad ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn nodi, er enghraifft, hawliadau lluosog (a thwyllodrus) am fudd-dal tai, neu hawliadau am fudd-dal lle mae pobl mewn swyddi sy'n talu'n dda. Ers 1996 mae dros £7.5 miliwn o daliadau twyllodrus a gwallus wedi'u canfod yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith bod y Fenter, i raddau helaeth, wedi'i chyfyngu i lywodraeth leol a chyrff lleol y GIG. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'm harchwilwyr penodedig eraill yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Archwilio i gwblhau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2006/2007, a chyflwynir adroddiadau ar y canlyniadau ar ddechrau 2008, a byddwn yn cynllunio i waith yn y dyfodol ddigwydd yn 2008/2009. Am bod y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei chynnal yng Nghymru o dan fy mhwerau fel yr Archwilydd Cyffredinol, bydd hefyd yn golygu y gellir rhoi sylw ehangach i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru. O ystyried y cwmpas ehangach hwn, ac oherwydd canlyniadau'r ymarfer yn y gorffennol, gallai'r astudiaeth arwain at arbedion ariannol sylweddol yn ogystal â sicrhau buddiannau pwysig o ran diogelu arian cyhoeddus a chynnal busnes cyhoeddus.

# Atodiad 3: Opsiynau ar gyfer archwiliadau gwerth am arian newydd, i ddechrau yn 2008/2009 ac ar ôl hynny

| Cyf. | Teitl |
|---|---|
| 1 | **Gofal Parhaus** |
| 2 | **Gweithredu'r trefniadau comisiynu newydd** |
| 3 | **Sicrhau buddiannau moderneiddio cyflogau yn y GIG** |
| 4 | **Trais yn erbyn staff y GIG (gwaith dilynol)** |
| 5 | **Caffael (cyflenwadau'r GIG)** |
| 6 | **Esgeuluster clinigol (gwaith dilynol)** |
| 7 | **Gofal heb ei drefnu** |
| 8 | **Gwasanaethau deintyddol** |
| 9 | **Trefniadau rheoli perfformiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol** |
| 10 | **Gwybodaeth ac ansawdd data'r GIG** |
| 11 | **Cywirdeb gwybodaeth am restrau aros** |
| 12 | **Mynd i'r afael â gordewdra** |
| 13 | **Gwasanaethau pobl hŷn** |
| 14 | **Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau** |
| 15 | **Gweithio gyda'r sector gwirfoddol** |
| 16 | **Cynnydd o ran Strategaeth Dai Cymru – Cartrefi Gwell i Bobl Cymru.** |
| 17 | **Cefnogi Pobl** |
| 18 | **Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd** |
| 19 | **Codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion (Rhagori)** |
| 20 | **Effaith y Cytundeb ar Lwyth Gwaith Athrawon** |
| 21 | **Sgiliau sylfaenol** |
| 22 | **System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS) mewn addysg ôl-16** |
| 23 | **Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen** |
| 24 | **Addysg yn y blynyddoedd cynnar: effaith Rhesymoli Cynlluniau ar y system ysgolion yng Nghymru** |
| 25 | **Datblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch bwyd o Gymru** |
| 26 | **Taliadau hwyr i ffermwyr (gwaith dilynol)** |
| 27 | **Datblygiadau o ran rheoli Twbercwlosis (TB) mewn gwartheg *(gwaith dilynol)*** |

| Cyf. | Teitl |
|---|---|
| 28 | **Gwerthu Cymru** |
| 29 | **Creu'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth bellach)** |
| 30 | **Manteisio i'r eithaf ar gyfalaf deallusol yn y sector diwylliannol** |
| 31 | **Mentrau teithio a mentrau benthyg y celfyddydau a diwylliant** |
| 32 | **Sicrhau buddiannau mwyaf posibl digwyddiadau chwaraeon mawr** |
| 33 | **Iaith Pawb: creu Cymru ddwyieithog** |
| 34 | **Rheoli newid yn yr hinsawdd – lleihau gollyngiadau carbon deuocsid** |
| 35 | **Gwaith dilynol ar reoli gwastraff** |
| 36 | **Cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb** |
| 37 | **Contract Merlin (gwaith dilynol)** |
| 38 | **Strategaeth Adleoli Llywodraeth y Cynulliad** |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 1 | **Gofal Parhaus**<br>Mae dyfarniad barnwrol diweddar wedi rhoi pwyslais newydd ar yr heriau o ran asesu anghenion gofal parhaus unigolion yn gywir ac ariannu eu ddarpariaeth. Felly mae adolygiad o sut y mae cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn cydweithio i reoli gofal parhaus yn amserol. Byddai meysydd ffocws posibl yn cynnwys asesiad o anghenion, cytuno ar feini prawf cymhwysedd, trefniadau ar gyfer asesu ac adolygu, darparu pecynnau gofal ar y cyd, ac effaith ariannol gyffredinol pecynnau gofal. Byddai cwmpasu unrhyw waith ar ofal parhaus yn cynnwys cydweithio'n agos ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio. |
| 2 | **Gweithredu'r trefniadau comisiynu newydd**<br>Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod bod angen atgyfnerthu trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn Cynllun Oes a Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol. Cyhoeddwyd canllawiau sy'n egluro'r cyfrifoldebau dros gomisiynu ac yn cyflwyno'r cysyniad o Unedau Comisiynu Rhanbarthol fel system ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn y cyfluniad presennol o wasanaethau. Byddai'r adolygiad arfaethedig yn ystyried a yw BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, wedi llwyddo i osod seiliau cadarn i atgyfnerthu trefniadau comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol. |
| 3 | **Sicrhau buddiannau moderneiddio cyflogau yn y GIG**<br>Buddsoddwyd cryn dipyn o amser ac arian mewn cynllunio a gweithredu contract newydd y meddygon ymgynghorol a'r Agenda ar gyfer Newid. Mae maint a chymhlethdod y rhaglen moderneiddio cyflogau hon yn golygu bod risg y gwireddir y buddiannau disgwyliedig yn arafach nag a ragwelwyd, os o gwbl. Felly byddai'r adolygiad yn asesu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r rhaglen moderneiddio cyflogau a chwilio am dystiolaeth bod y buddiannau bwriadedig yn cael eu gwireddu, neu'n debygol o gael eu gwireddu. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 4 | **Trais yn erbyn staff y GIG (gwaith dilynol)**<br>Yn 2005, cyhoeddais adroddiad a gododd bryderon ynglŷn ag effaith trais ac ymddygiad ymosodol yn erbyn staff y GIG. Amlygodd yr adroddiad yr angen i fynd i'r afael â meysydd o risg uchel ac i gryfhau trefniadau ar gyfer cofnodi digwyddiadau a chyflwyno adroddiadau arnynt. Er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem ceir pryderon o hyd ynglŷn â'r duedd gynyddol o drais yn erbyn staff y GIG, a galwadau am hyfforddiant mwy cynhwysfawr ar gyfer staff i'w helpu i ymdrin â chleifion treisgar. Byddai'r adolygiad yn asesu cynnydd o ran gweithredu fy argymhellion blaenorol, a rhai'r Pwyllgor Archwilio, ac asesu a oes lle o hyd i wneud mwy i ddiogelu staff y GIG a rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt. |
| 5 | **Caffael (cyflenwadau'r GIG)**<br>Mae gweithredu gwell arferion caffael yn cynnig cyfle i wneud arbedion sylweddol y gellir eu hailfuddsoddi mewn datblygu a darparu gwasanaethau. Yn ôl gwaith archwilio blaenorol a wnaed yn 2002 ceir amrywiaeth eang rhwng ymddiriedolaethau yng Nghymru o ran y gost o gaffael cyflenwadau a chyfarpar, hyd yn oed ar ôl caniatáu ar gyfer maint yr Ymddiriedolaeth. Ers hynny mae Bwrdd Caffael Cymru Gyfan y GIG wedi datblygu strategaeth i gefnogi trefniadau caffael gwell a mwy cydweithredol ymhlith ymddiriedolaethau'r GIG. Byddai'r adolygiad hwn yn ailystyried caffael cyflenwadau a meincnodi perfformiad ymhlith ymddiriedolaethau gan ddefnyddio dangosyddion y cytunwyd arnynt. Gallai hefyd asesu'r graddau y mae ymddiriedolaethau yn gweithredu Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan a ph'un a yw hyn wedi arwain at well arferion caffael. |
| 6 | **Esgeuluster clinigol (gwaith dilynol)**<br>Nododd cyfrifon cryno Ymddiriedolaeth GIG Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol 2005/2006 a 2006/2007 i ychydig o dan £29 miliwn y flwyddyn gael ei dalu mewn iawndal i ddioddefwyr esgeuluster clinigol. Mae adroddiad blynyddol Cronfa Risg Cymru yn amlygu'r ffaith bod yr un ffactorau yn cyfrannu at gamgymeriadau clinigol o flwyddyn i flwyddyn, gan awgrymu nad yw gwersi'n cael eu dysgu. Byddai'r archwiliad hwn yn cynnal gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed gan fy rhagflaenydd yn 2001, a byddai'n asesu a oes systemau priodol ar waith i leihau'r risg o gamgymeriadau clinigol. Byddai'r adolygiad dilynol yn cynnwys asesiad o effaith debygol y Mesur newydd ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG. Byddai'r cyfleoedd i wneud y gwaith hwn ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Chronfa Risg Cymru'n cael eu harchwilio'n llawn. |
| 7 | **Gofal heb ei drefnu**<br>Mae llawer o wasanaethau yn ymwneud â darparu gofal brys a gofal mewn argyfwng: mae adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Galw Iechyd Cymru, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau a gwasanaethau ambiwlans yn darparu ymyriadau sy'n amrywio o achub bywydau i roi cyngor a sicrwydd. Er gwaethaf datblygiadau gwasanaethau, erys pryderon ynglŷn ag ymatebolrwydd gwasanaethau gofal brys a gwasanaethau gofal mewn argyfwng, y graddau y maent wedi'u hintegreiddio, a phwysau cynyddol ar adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys archwiliad ar y cyd o wasanaethau gofal heb ei drefnu yng Nghymru, a gallai gynnwys adolygiad o gynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn fy adroddiad ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Byddai'r cyfle i wneud gwaith ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cael ei ystyried yn llawn. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 8 | **Gwasanaethau deintyddol**<br>Nod y Contract Deintyddol newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2006 yw hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau hyblyg o safon, sydd wedi'u teilwra at anghenion cleifion, gyda mwy o ffocws ar driniaeth ataliol. Cyflwynwyd y contract yng Nghymru yn erbyn cefndir o anghydraddoldebau o ran mynediad at ddeintyddion y GIG, a mentrau blaenorol i ddatblygu gwasanaethau deintyddol cymunedol drwy ddeintyddion cyflogedig y GIG. Byddai'r adolygiad hwn yn archwilio a weithredwyd y Contract Deintyddol newydd yn briodol, ac a yw'r buddiannau bwriadedig yn dechrau cael eu gwireddu. Gallai hefyd asesu a yw Menter Ddeintyddol Gymunedol Llywodraeth y Cynulliad wedi helpu i atgyfnerthu'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol lleol yn yr ardaloedd â'r anghenion mwyaf. |
| 9 | **Trefniadau rheoli perfformiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**<br>Mae *Cynllun Oes* yn nodi rheoli perfformiad fel y sbardun allweddol ar gyfer newid a chyflawni cerrig milltir heriol ar gyfer moderneiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rheoli perfformiad yn y GIG yng Nghymru yn datblygu o hyd o sail isel yn hanesyddol. Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol yn cael anawsterau o hyd i ddefnyddio gwybodaeth rheoli perfformiad yn effeithiol i fynd i'r afael â pherfformiad gwael a llywio gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Byddai'r archwiliad hwn yn archwilio a yw'r trefniadau rheoli perfformiad mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddigon effeithiol fel ffactorau sy'n ysgogi newid a gwella. Byddai hefyd yn ystyried trefniadau rheoli perfformiad wrth bontio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. |
| 10 | **Gwybodaeth ac ansawdd data'r GIG**<br>O fewn y GIG, mae angen gwybodaeth fanwl gywir i gefnogi'r broses o reoli, cynllunio, comisiynu a monitro gwasanaethau gofal iechyd. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae adroddiadau niferus wedi nodi problemau o ran argaeledd gwybodaeth ddibynadwy fel rhwystr i'r gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried cynnal rhaglen dreigl o archwiliadau ansawdd data, a fyddai'n cysoni data a ddelir ar gronfeydd cenedlaethol megis Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru a'r hynny a geir mewn systemau TG lleol a nodiadau achosion clinigol cysylltiedig. Byddai'r gwaith yn cael ei gwmpasu a'i ddatblygu mewn cydweithrediad â Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gorfforaethol Llywodraeth y Cynulliad. Byddai'r canlyniadau'n helpu i nodi lle bydd angen canolbwyntio sylw i wella ansawdd y data a gesglir ac a gofnodir yn y GIG yng Nghymru. |
| 11 | **Cywirdeb gwybodaeth am restrau aros**<br>Mae targedau newydd o ran rhestrau aros yn pennu, erbyn diwedd Rhagfyr 2009, na ddylai'r cyfnod rhwng cyfeirio a thrin y claf fod yn fwy na 26 wythnos. Er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran lleihau amseroedd aros, mae targed 2009 yn heriol, a bydd angen trefniadau monitro cadarn i adolygu cydymffurfiaeth. Yn sail i'r trefniadau monitro hyn bydd angen rhestrau aros manwl gywir. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad hapwirio o gywirdeb gwybodaeth rhestrau aros ym mis Mawrth 2007. Datgelodd hyn arfer da a rhai pryderon hefyd, yn arbennig mewn perthynas â'r ffordd y tynnir enwau cleifion oddi ar restrau aros. Cynigir cyfres ddilynol o adolygiadau ar yr hapwiriadau hyn i roi sicrwydd bod ymddiriedolaethau wedi mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd, a bod trefniadau cadarn ar waith i gefnogi trefniadau monitro perfformiad yn erbyn targedau rhestrau aros. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 12 | **Mynd i'r afael â gordewdra**<br>Dengys Arolwg Iechyd Cymru fod dros 50 y cant o oedolion yng Nghymru naill ai'n ordew neu dros bwysau (fel y mesurir drwy fod â Mynegai Màs y Corff sydd dros 25). Mae'r achosion cynyddol o ordewdra wedi'u disgrifio fel 'bom amser iechyd' a chaiff ei ystyried fel her gynyddol i'r llywodraeth. Mae pobl ordew yn fwy tebygol o ddioddef nifer o glefydau cronig difrifol y mae llawer ohonynt yn cyfyngu ar fywyd. Mae gordewdra hefyd yn creu baich economaidd sylweddol drwy ei effaith ar y GIG ac fel un o achosion absenoldeb oherwydd salwch. Mae mynd i'r afael â gordewdra yn gofyn am ddull cydlynol o bennu polisïau a darparu gwasanaethau'n lleol gan amrywiaeth o asiantaethau gwahanol. Byddai'r archwiliad yn asesu effaith gordewdra ar y GIG yng Nghymru a'i bartneriaid ac yn adolygu i ba raddau y mae Llywodraeth y Cynulliad a chyrff y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r broblem. |
| 13 | **Gwasanaethau pobl hŷn**<br>Bu cyfran y bobl hŷn ym mhoblogaeth Cymru yn cynyddu'n raddol dros y 25 mlynedd diwethaf a rhagwelir y bydd yn codi eto. Mae pobl hŷn ymysg y prif ddefnyddwyr o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ond gellir gwrthbwyso'r galw am y gwasanaethau hyn drwy gael mwy o ffocws ar hybu iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hŷn. Lansiwyd Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn ym mis Mawrth 2006, fel system allweddol i wella gwasanaethau a sicrhau bod pobl hŷn yn cael cymorth amserol, di-dor ac o safon pan fo'i angen. Mae cynllun gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn nodi pwysigrwydd adolygiad cynhwysfawr ac annibynnol o wasanaethau pobl hŷn. Byddai'r archwiliad hwn yn gweithredu hynny trwy adolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Byddai'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i asesu pa mor dda y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio i ddarparu'r safonau gofal a nodwyd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol. |
| 14 | **Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau**<br>Lansiodd Llywodraeth y Cynulliad ei strategaeth wyth mlynedd 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau, Y Dull Partneriaeth' ym mis Ebrill 2000.<br>Mae'r cyfrifoldeb am gyflawni'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau yn lleol wedi'i drosglwyddo i'r 22 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2003 ar ôl ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. Un o nodweddion allweddol ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r broblem hon fu sefydlu Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau, ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyn wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf i tua £20 miliwn yn 2007/2008. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl cyhoeddi strategaeth camddefnyddio sylweddau newydd yn 2008 ac, o ganlyniad, mae'n debyg na ddylid cynnal archwiliad o'r pwnc hwn cyn 2009 er mwyn rhoi amser i roi'r strategaeth newydd hon ar waith. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 15 | **Gweithio gyda'r sector gwirfoddol**<br>Mae cynifer â 30,000 o sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn gweithredu yng Nghymru, gan wneud gwaith pwysig i gefnogi darpariaeth y sector cyhoeddus mewn nifer o sefyllfaoedd. Bu Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth y Cynulliad, sy'n nodi sut y mae'n ymgynghori ac yn cydweithio â'r sector gwirfoddol, ac yn ei ariannu, yn destun adolygiad annibynnol yn 2003. Gwnaeth yr adolygiad nifer o argymhellion ar gyfer sicrhau llwyddiant parhaus y cynllun. Byddai'r archwiliad arfaethedig yn asesu cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr adolygiad annibynnol. Yn fwy cyffredinol, gallai archwilio a yw ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yn dilyn arfer gorau cydnabyddedig, a pha drefniadau sydd ar waith gan y sector cyhoeddus i fonitro gwerth am arian y gwasanaethau a ddarperir gan y sector gwirfoddol.<br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl lansio Strategaeth newydd y Trydydd Sector yn ddiweddarach yn 2007, tra bod y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant hefyd yn cynnal astudiaeth o ariannu'r sector gwirfoddol. Cynigiaf felly aros am ganlyniadau ac effeithiau'r gwaith hwn cyn cynnal unrhyw archwiliadau yn y maes hwn yn y dyfodol. |
| 16 | **Cynnydd o ran Strategaeth Dai Cymru – Cartrefi Gwell i Bobl Cymru.**<br>Cartrefi Gwell i Bobl Cymru, a gyhoeddwyd yn 2001, yw strategaeth dai genedlaethol gyntaf Cymru, ac mae'n nodi dymuniad Llywodraeth y Cynulliad y dylai pawb yng Nghymru gael y cyfle i fyw mewn tai fforddiadwy o ansawdd da; i allu dewis lle maent yn byw a phenderfynu ai prynu neu rentu yw'r dewis gorau iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi gwybod ei bod ar hyn o bryd yn dechrau'r broses o ddiwygio ei strategaeth dai gyda'r nod o lunio drafft ymgynghori yn ystod Hydref 2008. Gan adeiladu ar ein hadroddiadau diweddar ar y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd a chyflawni Deddf Arbed Ynni yn y Cartref, byddai'r archwiliad hwn yn ystyried y cynnydd a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad a'i bartneriaid ar draws y gadwyn gyflenwi o ran cyflawni'r amcanion strategaeth dai allweddol a'r targedau. Fel arall, gallai archwiliad mwy penodol ganolbwyntio ar agweddau penodol ar y strategaeth, megis gwella cyflwr cartrefi (yn arbennig cynnydd tuag at Safon Ansawdd Tai Cymru 2012), neu roi mynediad i ragor o dai fforddiadwy. |
| 17 | **Cefnogi Pobl**<br>Daeth menter polisi Cefnogi Pobl i rym ledled y DU ar 1 Ebrill 2003, gan sefydlu fframwaith ariannu a gweinyddol newydd ar gyfer darparu cymorth seiliedig ar lety i bobl sy'n agored i niwed. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer Cefnogi Pobl yng Nghymru yn ystod 2007/2008 yw £133 miliwn. Mae tua £73 miliwn wedi'i neilltuo i'r Grant Cefnogi Pobl a weinyddir gan awdurdodau lleol ac sy'n rhoi arian i'r henoed, elfen gymorth I dderbynwyr rhai gwasanaethau gofal lle y bônt yn gymwys a gwasanaethau eraill. Caiff y £60 miliwn sy'n weddill ei weinyddu gan Lywodraeth y Cynulliad fel Grant Refeniw Cefnogi Pobl (SPRG), gan ddarparu ar gyfer pob math arall o wasanaeth cymorth megis ar gyfer y rhai ag anableddau dysgu neu ferched sy'n dianc rhag trais. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio proses gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad o weinyddu'r cynllun, dyrannu a monitro gwariant, a'r canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma, er y byddai angen adolygu cwmpas ac amseru unrhyw astudiaeth yng ngoleuni'r ymgynghoriad parhaus a gynhelir o ran dyfodol y SPRG, yn arbennig yr archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar o barodrwydd llywodraeth leol i ymgymryd â gweinyddu SPRG a'r ffordd y dosberthir holl adnoddau Cefnogi Pobl yn genedlaethol i adlewyrchu mynegeion poblogaeth/angen yn hytrach na'r dyraniad hanesyddol yn seiliedig ar y cynghorau hynny a gafodd y budd mwyaf posibl o'r arian a oedd ar gael. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 18 | **Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd**<br>Dechreuodd y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion yn y 1,588 o ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru (â 285,000 o ddisgyblion) ym mis Medi 2004 mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mewn naw Awdurdod Lleol ac erbyn mis Ionawr 2007 bydd ar gael ym mhob ysgol gynradd a gynhelir yng Nghymru sy'n dymuno ei mabwysiadu. Mae'r polisi yn seiliedig ar ymchwil i fuddiannau iechyd ac addysg brecwast maethlon a datblygodd o fudiad a oedd yn cwmpasu cannoedd o wahanol 'glybiau brecwast' ledled Cymru. Nod y fenter yw hybu deilliannau dysgu a lleihau problemau ymddygiadol. Disgwylir cyfraddau triwantiaeth is hefyd. Byddai'r astudiaeth hon yn ystyried sut y gweithredwyd y cynllun, y nifer a ddefnyddiodd y cynllun (gydag ystyriaeth arbennig i grwpiau targed allweddol megis ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) a deilliannau o ran addysg ac iechyd. |
| 19 | **Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion**<br>Nod Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yw targedu disgyblion difreintiedig a gwella eu perfformiad. Cyllideb y rhaglen yw £16 miliwn y flwyddyn a chaiff ei hariannu'n gychwynnol yn 2006/2007 a 2007/2008 yn bennaf gan ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i Gymru yng nghyllideb y DU ar gyfer 2006. Dosberthir y cyllid i dros 600 o ysgolion lle mae dros 20 y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim (£14.4 miliwn) ac i awdurdodau lleol i gefnogi dysgu Plant sy'n Derbyn Gofal (£1 filiwn). Byddai'r astudiaeth yn archwilio sut y mae'r rhaglen yn ychwanegu gwerth at gynlluniau eraill Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn addysg; y meini prawf ar gyfer llwyddiant; trefniadau monitro; enghreifftiau o arfer da; a chanlyniadau. |
| 20 | **Effaith y Cytundeb ar Lwyth Gwaith Athrawon**<br>Llofnododd gweinidogion yng Nghymru a Lloegr a mwyafrif undebau prifathrawon, athrawon a staff cymorth mewn ysgolion y Cytundeb Llwyth Gwaith Ysgolion ym mis Ionawr 2003. Mae'r Cytundeb yn rhoi cynllun saith pwynt a gynlluniwyd i alluogi athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu eu disgyblion, gydag amser a chymorth i'w galluogi i wneud hyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrannu tua £70 miliwn i gefnogi'r Cytundeb ers dechrau 2004/2005, ond erys dadleuon o ran ariannu'r cynllun, o ran cost gyffredinol gweithredu'r Cytundeb yn ogystal â dyrannu'r arian parod yn lleol. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod llwyth gwaith ac oriau penaethiaid wedi cynyddu o ganlyniad i'r Cytundeb. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu effeithiolrwydd y Cytundeb a'i effaith. |
| 21 | **Sgiliau sylfaenol**<br>Mae gan Gymru ddiffyg sylweddol o ran sgiliau sylfaenol a ddiffinnir fel gallu Lefel 1 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol mewn llythrennedd a rhifedd.<br>Mae sgiliau sylfaenol isel yn rhwystro diwydiant ac yn lleihau cyfleoedd cyflogaeth i unigolion; mae cydberthynas glir rhwng diffyg sgiliau sylfaenol a throseddu; a bydd rhieni â sgiliau sylfaenol isel yn cael problemau o ran helpu eu plant ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Ym mis Ebrill 2005, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad Strategaeth Sgiliau Sylfaenol newydd sy'n rhedeg hyd at 2010, i'w chyflawni o dan reolaeth yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio pob un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt: gwella o ran nodi unigolion â diffygion sgiliau sylfaenol; sut yr ymgysylltir â'r unigolion dan sylw a sut yr ymgynghorir â hwy; cynnydd yn erbyn targedau strategol; sut y mae'r partneriaid sy'n cyflawni'r Strategaeth, megis y Cynghorau Sgiliau Sector, yn cydweithio; trefniadau monitro; neu faterion yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 22 | **System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS) mewn addysg ôl-16**<br>Mae'r NPFS yn system cynllunio ac ariannu newydd ar gyfer yr holl ddysgu ôl-16 oed yng Nghymru, ac eithrio Addysg Uwch, ac mae wedi'i chynllunio i gynllunio ac ariannu Dysgu Cymunedol, dysgu mewn Sefydliadau Addysg Bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu mewn dosbarthiadau chweched dosbarth. Nod y system, a ddechreuodd yn 2004, yw cyflawni cydraddoldeb ariannu ym mhob sector erbyn 2010 ac mae'n cynnwys pwysoliadau ar gyfer teneurwydd poblogaeth ac anfantais gymdeithasol. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio'r ffordd y cafodd y system newydd ei gweithredu'n weinyddol a'r graddau yr oedd wedi cyflawni ei nodau o 'gysylltu ariannu ag amcanion polisi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 (y tu allan i addysg uwch) mewn ffordd gydlynol, hyblyg ac ymatebol'. |
| 23 | **Addysg yn y blynyddoedd cynnar: gweithredu'r Cyfnod Sylfaen**<br>Bydd y Cyfnod Sylfaen, o fis Medi 2008, yn cymryd lle'r hyn a adwaenir ar hyn o bryd fel y Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1 i blant tri i saith oed yng Nghymru. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi mwy o bwyslais nag yn flaenorol ar 'ddysgu drwy brofiadau', drwy ddefnyddio 'datrys problemau bywyd go iawn' fel dull o fynd i'r afael â'r saith maes dysgu. Ar gyfer plant hŷn yn arbennig, bydd mwy o bwyslais ar chwarae a llai o bwyslais ar ddysgu wrth ddesg. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei dreialu mewn 42 o leoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir rhwng 2004 a 2008. Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru werthusiad dwy flynedd o'r prosiectau peilot, ac mewn ymateb i'r gwerthusiad paratowyd 'Cynllun Gweithredu Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen'. Yn ogystal, cyhoeddodd Estyn adroddiad yn 2007, ac roedd llawer o'r canfyddiadau yn adlewyrchu canfyddiadau'r gwerthusiad cynharach. Fodd bynnag, tynnodd Estyn sylw hefyd at y ffaith bod llawer o'r ysgolion a'r lleoliadau a gynhwyswyd yn y cyfnod peilot o'r farn bod yr arian ychwanegol a roddwyd iddynt yn annigonol. Byddai'r astudiaeth hon yn gwerthuso cynnydd Llywodraeth y Cynulliad o ran gweithredu 'Cynllun Gweithredu Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen' ac asesu a yw'r cynllunio ariannol sy'n sail i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llawn yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r costau ychwanegol sy'n rhan o'r broses o'i roi ar waith. Dylid cynnal yr astudiaeth ar y cyd ag Estyn yn dechrau'r gwaith tua canol 2009. |
| 24 | **Effaith Rhesymoli Cynlluniau ar y system ysgolion yng Nghymru**<br>Yn 2002, lluniodd Llywodraeth y Cynulliad ddatganiad polisi o'r enw 'Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol'. Yn y datganiad polisi hwn gwnaed ymrwymiad i leihau'r baich gweinyddol a roddwyd ar awdurdodau lleol drwy'r gofynion am gynlluniau a strategaethau. Ar y pryd, roedd yn ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol lunio amrywiaeth eang o gynlluniau ar wahân. Ymhlith y rhain roedd y Cynllun Strategol Addysg tair blynedd, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar wella ysgolion, a chafodd ei ansawdd ei asesu gan Estyn a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Ym mis Tachwedd 2005, cymeradwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru leihad sylweddol yn nifer y cynlluniau a oedd yn ofynnol. O dan y drefn newydd, dim ond un cynllun (y Cynllun Addysg Sengl) yr oedd yn ofynnol i wasanaethau addysg awdurdodau lleol ei lunio. Yn sgîl gweithredu Deddf Plant 2004, ni fydd y Cynllun Addysg Sengl yn ofynnol mwyach o fis Ebrill 2008, a dim ond pedair strategaeth lefel uchel y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol eu llunio, a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yw un ohonynt. Er bod y broses o resymoli gofynion cynllunio wedi'i chroesawu gan CLILC a SOLACE Cymru, mae risg y bydd y canolbwynt ar godi safonau yn y gwasanaeth ysgolion, sy'n wasanaeth cyffredinol, yn cael ei wanhau o fewn fframwaith cynllunio ehangach sy'n rhoi pwyslais cryf ar wasanaethau nad ydynt yn rhai cyffredinol i blant a phobl ifanc agored i niwed. Bydd yr astudiaeth hon yn gwerthuso effaith rhesymoli cynlluniau ar godi safonau mewn ysgolion. Dylid ei chynnal ar y cyd ag Estyn a dechrau 2009 fyddai'r amser gorau i ddechrau'r astudiaeth. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 25 | **Datblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch bwyd o Gymru**<br>Mae gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghymru yn dibynnu ar ddatblygu cynnyrch bwyd marchnadoedd arbenigol a mwy o allu i gynhyrchu bwyd yn lleol. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi amrywiaeth o raglenni, megis rhoi cyfleoedd i arddangos o dan frand 'Cymru y Gwir Flas' ac mae'n cynnig arian o dan y cynllun Grantiau Prosesu a Marchnata Bwyd. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu effaith y gweithgareddau hyn ar hyfywedd busnesau fferm yng Nghymru ac ar economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Gallai hefyd ystyried y dulliau o ddarparu cymorth o'r fath, gan asesu addasrwydd yr arferion hyn o safbwynt y prynwr a'r gwerthwr. |
| 26 | **Taliadau hwyr i ffermwyr (gwaith dilynol)**<br>Yn 2003, cyflwynodd fy rhagflaenydd fel Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar daliadau grant a chymhorthdal i ffermwyr. Canfu'r adroddiad na chafodd bron £50 miliwn, neu 25 y cant o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ei dalu pan ddylid bod wedi'i dalu yn 2002/2003. Cafwyd oedi o ran y taliadau oherwydd problemau amrywiol gyda system TG newydd a gynlluniwyd i awdurdodi taliadau, yn cynnwys anawsterau o ran y dechnoleg sganio ac amcangyfrifon rhy isel o ran yr amser yr oedd ei angen ar gyfer cynnal profion. Fodd bynnag, gwnaed y taliadau'n brydlon ers hynny. Ers cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ac adroddiad y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2004, mae'r system ar gyfer taliadau wedi newid yn sgîl cyflwyno Cynllun y Taliad Sengl ym mis Ionawr 2005. Byddai'r astudiaeth hon yn gwneud gwaith dilynol ar ganfyddiadau ac argymhellion y ddau adroddiad hyn ac yn edrych ar hyblygrwydd y system TG o ran ymdrin â newidiadau i'r system daliadau. |
| 27 | **Datblygiadau o ran rheoli TB mewn gwartheg (gwaith dilynol)**<br>Bu'r achosion o TB mewn gwartheg yng Nghymru yn cynyddu ers 1988.<br>Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, o dan ei strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid a Ffermio i'r Dyfodol, wedi cyflwyno pecyn o fesurau i fynd i'r afael ag ymlediad y clefyd hwn. Byddai'r astudiaeth hon yn asesu costau ac effeithiolrwydd ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i ddiogelu ardaloedd lle y ceir nifer fach o achosion o'r clefyd a lleihau'r achosion o'r clefyd mewn ardaloedd lle y ceir nifer fawr o achosion. Byddai hefyd yn asesu cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol (2003) a'r Pwyllgor Archwilio (2004) ar ddigolledu ffermwyr am TB mewn gwartheg. |
| 28 | **Gwerthu Cymru**<br>Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwario dros £25 miliwn y flwyddyn ar hyrwyddo twristiaeth, masnach ryngwladol a mewnfuddsoddiad. Dygodd Llywodraeth y Cynulliad ynghyd dwristiaeth a gweithgarwch marchnata a hyrwyddo busnes arall o dan un is-adran yn yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth bellach), ac mae'n gobeithio gwella gwasanaethau drwy ddull integredig, wedi'i dargedu sy'n gwneud y defnydd gorau o lwyddiannau diweddar o ran hyrwyddo twristiaeth. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio llwyddiant y gwaith marchnata a hyrwyddo busnes cyffredinol hwn, yn enwedig ym maes mewnfuddsoddiad lle cafwyd perfformiad anghyson dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai'r astudiaeth yn archwilio'r fframwaith rheoli perfformiad a'r canlyniadau a gofnodwyd, gan nodi'r ffactorau sy'n ysgogi marchnata effeithiol a'r cyfyngiadau o ran marchnata effeithiol a cheisio asesu pa fentrau sydd fwyaf llwyddiannus. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 29 | **Creu'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth bellach)**<br>Creu Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth bellach) Llywodraeth y Cynulliad oedd y newid mwyaf i'r ffordd y caiff datblygu economaidd a ariennir yn gyhoeddus ei drefnu yng Nghymru am genhedlaeth. Nod yr adran newydd oedd creu synergeddau, symleiddio gweithrediadau i gwsmeriaid, byrhau cadwyni penderfynu, gwella atebolrwydd a chynhyrchu arbedion i'w defnyddio mewn gweithgareddau rheng flaen. Byddai'r astudiaeth yn ystyried pa mor dda y mae'r adran newydd wedi cynnal parhad busnes a mynd i'r afael â blaenoriaethau polisi allweddol, yn arbennig gweithredu system rheoli perfformiad gadarn, integreiddio darparu gwasanaethau mewn meysydd allweddol, paratoi ar gyfer cylch ariannu Ewrop 2007/2013, a chyflawni arbedion ariannol. Byddai'r canolbwynt ar y materion eraill hyn yn hytrach nag edrych yn ôl ar y broses uno ei hun, er y gallai hon fod yn rhan o'r astudiaeth er mwyn gallu nodi unrhyw wersi defnyddiol a'u lledaenu'n ehangach. |
| 30 | **Manteisio i'r eithaf ar gyfalaf deallusol yn y sector diwylliannol**<br>Mae gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Cadw (un o is-adrannau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol)) asedau diwylliannol amrywiol mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y genedl – yn amrywio o gasgliadau o wrthrychau a gwaith celf i henebion ac adeiladau. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio a oes digon yn cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r asedau diwylliannol a threftadaeth hyn a'u marchnata, yn cynnwys yr hyn y gellid ei wneud i gynhyrchu incwm ychwanegol i'r sefydliadau hynny dan sylw. Byddai'n nodi ac yn cymharu arfer da o fewn sefydliadau a rhyngddynt, er budd cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a chanddynt asedau eiddo deallusol. |
| 31 | **Mentrau teithio a mentrau benthyg celfyddydau a diwylliant**<br>Wrth geisio cynyddu mynediad i'r celfyddydau, perfformiadau diwylliannol ac arddangosfeydd, mae Llywodraeth y Cynulliad a rhai o'r cyrff a noddir ganddo (Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru) wedi cynnal nifer o fentrau (yn cynnwys, er enghraifft, cynlluniau 'Cyfoeth Cymru Gyfan' a 'Noson Allan') i fenthyca rhai rhannau o'u casgliadau neu i gyflwyno perfformiadau, arddangosfeydd a digwyddiadau i bobl mewn cymunedau ledled Cymru. Byddai'r astudiaeth yn edrych ar nifer o'r mentrau hyn ac yn archwilio a oeddent wedi cyflawni'r canlyniadau dymunol, megis ehangu mynediad, hyrwyddo addysg a chryfhau cymunedau. |
| 32 | **Sicrhau buddiannau mwyaf posibl digwyddiadau chwaraeon mawr**<br>Bydd Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd yn cynnal saith gêm bêl-droed fel rhan o Gemau Olympaidd 2012, a chynhelir Cwpan Ryder 2010 yng Nghymru yng Ngwesty'r Celtic Manor, Casnewydd, ac mae'n debygol y cynhelir un o gemau prawf y Lludw yng Nghaerdydd yn 2009. Mae'r rhain yn gyfleoedd i hyrwyddo chwaraeon a'i fuddiannau yng Nghymru. Byddai'r astudiaeth yn archwilio a yw Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Chwaraeon Cymru yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd hyn i hyrwyddo eu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r buddiannau economaidd ehangach a ddaw yn sgîl digwyddiadau chwaraeon o'r fath. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 33 | **Iaith Pawb: Creu Cymru ddwyieithog**<br>Iaith Pawb, a lansiwyd yn 2002, yw Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog sy'n ceisio hyrwyddo a chynnal y defnydd o'r Iaith Gymraeg a rhoi cymaint o gyfle â phosibl i bobl sy'n byw yng Nghymru ddefnyddio a dysgu'r iaith. Yn wreiddiol, nod Llywodraeth y Cynulliad oedd adolygu'r cynllun yn 2007, ond mae anawsterau'n ymwneud â'r cynllun arfaethedig i ddod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adain Llywodraeth y Cynulliad wedi gohirio hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn nodi nifer o dargedau allweddol i'w cyflawni erbyn 2011, y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bennaf cyfrifol am eu cyflawni ond sy'n cynnwys camau gweithredu gan amrywiaeth eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Byddai'r astudiaeth yn archwilio pa mor effeithiol y bu mesurau hyd yma a pha gamau gweithredu penodol sydd eu hangen i weithredu'r cynllun yn llwyddiannus a'i ddatblygu yng nghyd-destun trefniadau olynol. |
| 34 | **Rheoli newid yn yr hinsawdd – lleihau gollyngiadau carbon deuocsid**<br>Mae rheoli newid yn yr hinsawdd a lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr yn golygu bod yn rhaid i nifer o sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol weithio gyda'i gilydd i leihau effeithiau posibl a chyflawni targedau yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddyletswyddau penodol mewn perthynas ag aer glân drwy reoleiddio diwydiant a gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ac awdurdodau lleol ar effeithiau iechyd amgylcheddol. Mae gan awdurdodau lleol nifer o ddyletswyddau drwy drafnidiaeth, cynllunio ac iechyd yr amgylchedd. Ymhlith y sefydliadau eraill sydd â rolau pwysig i'w chwarae mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon, a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni  Byddai'r astudiaeth hon yn dadansoddi'r gadwyn gyflenwi, gan edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli gollyngiadau nwyon tŷ gwydr. Efallai y byddai'r astudiaeth hefyd yn dadansoddi sut y mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn cyfrannu at raglenni'r DU ac a oes gweithdrefnau digonol ar waith i fesur gollyngiadau nwyon tŷ gwydr a chyflwyno adroddiadau arnynt. |
| 35 | **Gwaith dilynol ar reoli gwastraff**<br>Mae rheoli gwastraff yn un o'r prif faterion corfforaethol i bob awdurdod lleol.<br>Mae targedau cyntaf Cyfarwyddeb Tirlenwi'r UE wedi'u pennu ar gyfer 2009/2010, gyda thargedau mwy heriol wedi'u pennu ar gyfer 2012/2013 a 2019/2020. Gall y sawl a fydd yn methu â chyflawni'r targedau hyn wynebu dirwyon sylweddol, ynghyd â chostau gwasanaeth cynyddol. Byddai'r astudiaeth ddilynol hon yn archwilio'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, i gyflawni targedau Cyfarwyddeb Tirlenwi'r UE ac yn cynnal gwaith dilynol ar yr argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2004, *Rheoli Gwastraff – Agenda heriol i sector cyhoeddus Cymru*, ac adroddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 2004, *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – Rheoleiddio rheoli gwastraff*. |

| Cyf. | Teitl ac amlinelliad |
|---|---|
| 36 | **Cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldebau**<br>Mae maes amrywiaeth a chydraddoldeb yn newid yn gyflym. Ymhlith y ddeddfwriaeth berthnasol mae'r canlynol:<br>• mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar waith;<br>• mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn cyflwyno gofyniad i gyrff cyhoeddus sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar waith o fis Rhagfyr 2006;<br>• mae Deddf Cydraddoldeb 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod cynllun cydraddoldeb rhywiol ar waith erbyn mis Ebrill 2007 a dangos bod merched a dynion yn cael eu trin yn deg o ran darparu polisi a gwasanaethau yn ogystal ag yn eu cyflogaeth.<br>Mae diffyg cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yn rhoi cyrff cyhoeddus mewn perygl o wynebu dirwy ac achosion llys oherwydd bod modd gorfodi'r dyletswyddau newydd drwy'r gyfraith yn hytrach na dibynnu ar gŵynion gan unigolion. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio pa mor effeithiol y mae Llywodraeth y Cynulliad o ran cyflawni ei hymrwymiadau ei hun o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau. Byddai hefyd yn ystyried rôl Llywodraeth y Cynulliad o ran rhoi cymorth i weddill sector cyhoeddus Cymru i helpu i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn. Wrth wneud hynny, byddai'n cynnal gwaith dilynol ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r archwiliad cydraddoldebau diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Rhagwelir y byddai'r astudiaeth hon yn arwain at ddatblygu dull archwilio y gellid ei gymhwyso'n ehangach yn y sector cyhoeddus ac y byddai'r gwaith o ddatblygu'r dull hwn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad agos â phartneriaid perthnasol, megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd. |
| 37 | **Contract Merlin (gwaith dilynol)**<br>Ym mis Mawrth 2006, cyhoeddais fy adroddiad ar gaffael Contract Merlin ar gyfer TGCh a'r newid busnes ym mhob rhan o’r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn dilyn hyn, cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar y pwnc hwn ym mis Medi 2006. Bydd y contract hwn yn costio tua £220 miliwn dros 10 mlynedd. Byddai astudiaeth ddilynol yn canolbwyntio ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor Archwilio ac a yw perfformiad TGCh o dan Gontract Merlin wedi gwella. Gallai hefyd archwilio'r trefniadau TGCh ar gyfer Comisiwn newydd y Cynulliad ar ôl ymwahanu oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. |
| 38 | **Strategaeth adleoli Llywodraeth y Cynulliad**<br>Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i adleoli swyddi presennol Llywodraeth y Cynulliad yng Nghaerdydd ar amrywiaeth o raddau. Bydd y strategaeth yn arwain at rai costau ychwanegol, ond hefyd yn cynnig y cyfle i sicrhau arbedion yn sgîl swyddfeydd rhatach y tu allan i Gaerdydd. Mae hefyd yn cyflwyno'r posibilrwydd o fuddiannau economaidd ehangach yn ogystal ag ehangu presenoldeb Llywodraeth y Cynulliad y tu allan i Gaerdydd a ledled Cymru.<br>Mae'r strategaeth yn unol â chanfyddiadau Adolygiad Lyons yn Lloegr, sy'n ceisio symud staff y gwasanaeth sifil o Whitehall i leoliadau newydd yn rhanbarthau Lloegr. Byddai'r astudiaeth yn ystyried costau adleoli staff, y buddiannau a wireddir a'r parhad busnes a sicrheir. Byddai'n ystyried trosiant staff yn deillio o adleoli, morâl staff yn y swyddfeydd newydd ac effaith economaidd y strategaeth. Byddai hefyd yn cynnwys cymhariaeth â phroses, costau a buddiannau adleoli yn Lloegr a'r Alban. |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk